Myfyrdod wythnosol Caplaniaeth Prifysgol Bangor

Yn Enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. Amen

Flynyddoedd lawer yn ôl, gefeilliodd dinas Bangor â dinas Kazan, prifddinas Gweriniaeth Tatarstan yn yr Undeb Sofietaidd.

Un o fynachlogydd enwog yr ardal honno cyn y Chwyldro Rwsiaidd ym 1917 oedd Mynachlog y Saith Llyn, a sefydlwyd yn yr 17eg ganrif. Ar ôl y Chwyldro, fel y rhan fwyaf o'r mynachlogydd, lleiandai ac eglwysi, cafodd ei chau. Blwyddyn ei chau oedd 1926. Yn dilyn hyn, dinistriwyd rhan helaeth o'r adeilad.

Ym1649, drwy arddio yr enillai'r 27 mynach eu bywoliaeth pitw. Ond fel sy'n wir am bob cymuned fynachaidd, eu trysorau ysbrydol yw eu gwir gyfoeth , ac yn anad dim, sancteiddrwydd y mynaich neu'r lleianod.

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a rhan gyntaf yr ugeinfed ganrif, roedd gan yr Eglwys Rwsiaidd lawer o dywyswyr ysbrydol sanctaidd - *'startsi'* - yr amlygwyd gras Duw yn helaeth yn eu bywydau, yn enwedig yn y rhodd o'r ddirnadaeth ysbrydol oedd ganddynt, ac nid oedd Mynachlog y Saith Llyn yn eithriad – yn wir, bu farw un o'i *'startsi'* mor ddiweddar â 1915, un mlynedd ar ddeg cyn i'r fynachlog orfod cau. Roedd y dyddiau hynny yn ddyddiau tywyll iawn. Dim ond tri esgob oedd â rhywfaint o ryddid i weithio yn yr Undeb Sofietaidd cyfan, a'u cyd-esgobion naill ai wedi'u lladd yn greulon gan y wladwriaeth, neu'n gaeth mewn gwersylloedd carchar fel Mynachlog Solovki yn y gogledd pell – mynachlog a drowyd yn wersyll carchar ar gyfer clerigwyr, mynachod a lleianod a lle y bu farw lluoedd ohonynt yn ferthyron.

Ymhlith trysorau ysbrydol mawr Mynachlog y Saith Llyn oedd eicon y Forwyn Fair Fendigaid a elwir yn *'Eicon y Saith Llyn'*. Mae eiconau fel y rhain yn gysylltiedig â'r llefydd neilltuol y'i lleolir ynddynt, neu'r mannau y'i lleolid rywbryd yn eu hanes, er enghraifft Vladimir, Kazan, Pochaev, Częstochowa, Svyatogorsk, Tabynsk a nifer o lefydd eraill . Mae'r eiconau hyn yn datgan athrawiaeth Gristnogol yr Ymgnawdoliad - sef bod Iesu Grist, yn ogystal â bod yn wir Dduw hefyd yn wir ddyn - ac fel pob un ohonom, wedi Ei eni o fenyw mewn man penodol ar adeg benodol yn hanes y ddynoliaeth.

Ymhlith y ffyrdd o ddatgan y Ffydd Gristnogol a ddaeth i ben yn ddisymwyth gyda chwymp yr Ymerodraeth Rwsiaidd oedd gorymdeithiau crefyddol. Daeth terfyn ar y dathliadau hynny oedd yn datgan yn weladwy fod Duw gyda ni yn ein bywydau beunyddiol - yn strydoedd y trefi a'r pentrefi, yn y canolfannau dinesig, ymhlith y tlawd a'r cyfoethog, ymhlith y rhai y mae ganddynt ffydd ac ymhlith y rhai nad oes ganddynt na ffydd na gobaith.

Digwyddai gorymdeithiau o'r fath ar adegau o argyfwng hefyd. Cafwyd gorymdeithiau enwog o amgylch Kazan gydag *Eicon y Saith Llyn* - ym 1654 pan farw 400,000 o bobl gan bla

ym Moscow a 40,000 eisoes wedi marw yn Kazan ac eto ym 1771 pan oedd pla arall ar led yn Kazan.

Ar ôl Chwyldro'r Bolsieficiaid ym 1917, cychwynnodd y llywodraeth newydd ar ei hymgais i ddileu ffydd a phob arfer crefyddol o unrhyw grefydd ledled yr Undeb Sofietaidd. Erbyn y 1930au, nid oedd ond oddeutu 3,000 o eglwysi ar agor o'r 50,000 oedd yn bod cyn y Chwyldro, a dim ond dyrnaid o'r 1,000 o fynachlogydd oedd ar agor o hyd. Gallai mynychu'r eglwys fod yn ddigon i rywun golli ei yrfa.

Yn ystod y cyfnod hunllefus hwnnw a barhaodd am flynyddoedd maith, y 'babushki' ('neiniau') ar y cyfan gadwodd yr ychydig eglwysi yn agored. Roedd y babushki yn fyddin anorchfygol a oedd yn ei hystyried yn ddyletswydd arnynt i warchod y Ffydd a datganiadau o'r Ffydd ym mha ffordd bynnag y gallent. Nid oedd ganddynt swyddi i'w colli o fynychu'r eglwys. Byddent yn gweddïo gartref a sicrhau parhad yr addoliad yn yr eglwysi. Gwnaent yn siwr bod eu hwyrion a'r hwyresau yn cael eu bedyddio – fel arfer, yn gyfrinachol, a phan allent, dysgent hwy am Dduw ac am fywyd yr Eglwys.

Yn nannedd y fath anawsterau, dyma wnaeth babushki Kazan yn yr amseroedd tywyll hynny. Gwyddent gymaint o arwydd o obaith fu gorymdaith *Eicon y Saith Llyn* ar adegau tywyll yn y gorffennol, a phenderfynasant y byddent yn ail-greu'r orymdaith. Ond sut oedd gwneud hynny? Byddai gorymdaith grefyddol ar strydoedd y ddinas yn dod i sylw'r awdurdodau o fewn munudau, a gallai dial ofnadwy ddilyn. Rhaid bod ffordd arall. Gwyddai'r babushki eu bod yn bobl ddi-nod - mae gan bob cymuned yn Rwsia ei babushki - mae'n hawdd eu hadnabod â'u sgarffiau am eu pennau. Yn wleidyddol, maent yn hollol ddi-rym ac i bob glowg, nid oeddent yn fygythiad o gwbl i'r awdurdodau. Ac am fod ganddynt obaith, ac am eu bod yn credu bod Duw gyda ni mewn amseroedd tywyll yn ogystal ag ar adegau o ddathlu, byddent yn cerdded yn weddigar yn griw bach, ar hyd y llwybr y cerddai gorymdeithiau *Eicon y Saith Llyn* gynt, a byddent yn gwneud hynny, gan gario eicon yn gudd yn weithred symbolaidd pwerus o ffydd a gobaith. Deallaf i fabushki Kazan wneud hynny am nifer o flynyddoedd, ac mai *Eicon y Saith Llyn* y byddai un ohonynt yn ei gario ynghudd o dan ei chôt.

Daeth tro ar fyd, a gwireddwyd gobaith y babushki. Ail-agorodd eglwysi a daeth y gormes ar gredinwyr i ben. Mae Mynachlog y Saith Llyn wrthi'n cael ei hatgyweirio bellach. Caiff yr wyrion a'r wyres y bu i'r babushki sicrhau eu bedyddio bellach addoli'n rhydd. Yn ddiau, mae llawer o'r wyrion a wyresau hynny'n gwasanaethu Duw mewn ffyrdd amrywiol - rhai, o bosib, yn yr eglwysi a gadwyd yn agored gan y babushki, eraill mewn eglwysi a agorwyd ers y dyddiau hynny. Mae rhai o'r bobl a oedd yn ystyried y babushki'n anwybodus ac yn anoleuedig yn diolch iddynt bellach am eu camp o lwyddo i gadw eglwysi yn agored.

Newidiodd ein bywydau ninnau megis dros nos. Mae bywyd bellach yn wahanol iawn i'r hyn ydoedd hyd yn oed chwe mis yn ôl. Ni wyddom am ba hyd y bydd y sefyllfa newydd yn parhau a sut mae ymdopi â'r presennol. O'n cwmpas ni mae yna bobl yn cadw bywyd i fynd, ac yn dod â gobaith i'n bywydau ac yn ein helpu ni i ddal ati. Mae yna arwyr rhyfeddol yn gweithio yng ngofal iechyd sy'n eu rhoi eu hunain mewn sefyllfaoedd gwaith anodd iawn.

O'n cwmpas hefyd mae pobl yn gwneud pethau cyffredin iawn sy'n ein helpu ni i gynnal cymaint o normalrwydd â phosib. Mae gennym ein cyflenwadau dŵr a thrydan. Mae cludiant ar gael, ac mae'r ffyrdd yn cael eu cynnal a chadw. O wythnos i wythnos, mae byddin o bobl sy'n ymddangos yn ddi-nod yn tramwyo'r trefi, y dinasoedd a'r pentrefi, yn gwneud y gwaith digon peryglus o gasglu'r biniau a deunyddiau i'w hailgylchu wrth i'w cydweithwyr gadw'r strydoedd yn lân. Dysgodd fy nhad imi mor bwysig bob amser yw cyfarch y rhai sy'n glanhau'r strydoedd. Roedd o'n iawn. Weithiau caf gyfle i ddiolch i *arwyr y rheng flaen* sy'n casglu'r sbwriel. Mae nhw'n ddewr, mae nhw bob amser yn raslon, yn bositif, yn amyneddgar, yn gwrtais ac yn gydwybodol. Nid ydynt yn eu hystyried eu hunain yn arwyr fwy nag a wnâi babushki Kazan wrth iddynt hwythau gerdded o amgylch eu dinas.

Mae'r pandemig yn gyfle inni drysori'r cyffredin, dod o hyd i Dduw yn ein bywydau beunyddiol ac yn y bobl o'n cwmpas, ac - i rai nad ydynt yn credu yn Nuw – i ddirnad gobaith yn y ffaith ein bod yma, ein bod yn fyw a'n bod yn gallu bwrw ymlaen ag elfennau cyffredin, gwylaidd a di-nod bywyd fel yr ydym bellach yn ei fyw, a chredu - fel babushki Kazan - nad ofer yw byw mewn gobaith a gweithredu mewn gobaith.

Bellach cedwir *Eicon y Saith Llyn* yn Eglwys Gadeiriol Sant Pedr a Sant Paul yn Kazan, ac mae copi ym Mynachlog y Saith Llyn. Ni fu ffydd a gobaith y babushki yn ofer.

*'Bendithied yr Arglwydd di, a chadwed di: A llewyrched yrArglwydd ei wyneb arnat, a thrugarhaed wrthyt: Dyrchafed yr Arglwydd ei wyneb arnat, a rhodded i ti dangnefedd.'*
(Numeri 6:24-26)

+ Yr Hybarch Archabad y Tad Deiniol

Caplan Eglwys Uniongred y Dwyrain o'r Tîm Caplaniaeth

Gweinyddwr, Cenhadaeth Uniongred Cymru

Blaenau Ffestiniog, 07 VIII 2020